Safonau Gwasanaeth – Rheoli Ystadau

Datganiad cenhadaeth Tai Ceredigion

"Bod yn landlord a chyflogwr dwyiethog o'r radd flaenaf sy'n rhoi tenantiaid yn gyntaf, sy'n darparu cartrefi o safon ac sydd o fudd i gymunedau a'r economi leol"

Safon

Byddwn yn sicrhau bod yr ardaloedd lle'r ydych yn byw yn parhau'n lân, eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn lleoedd diogel i chi fyw ynddynt.

Sut y byddwn yn gweithio i gyrraedd y safon

Byddwn:

- Yn sicrhau bod ein gwasanaethau glanhau a chynnal a chadw tir yn wasanaethau o safon bob amser, lle cânt eu darparu.
- Yn arolygu ystadau'n rheolaidd ac yn ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi ac yn cadw cofnodion o'r ymweliadau hynny.
- Yn atgyweirio ac yn cynnal a chadw ardaloedd cyffredin o fewn yr amserlenni yr ydym wedi eu cyhoeddi ar gyfer gwaith cynnal a chadw.
- Yn gweithio gyda thenantiaid a rhanddeiliaid/asiantaethau sy'n bartneriaid i ni er mwyn ymdrin ag ymddygiad sy'n niwsans - er enghraifft, sbwriel, achosion o dipio sbwriel yn anghyfreithlon, gerddi anniben a cherbydau a gaiff eu gadael yn segur - gan ddefnyddio ein Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a byddwn yn gorfodi amodau tenantiaeth lle bo hynny'n briodol.
- Yn cael gwared â graffiti anweddus cyn pen 1 diwrnod gwaith.
- Yn ymgynghori â chi ynghylch unrhyw newidiadau yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno i lefel y gwasanaethau a ddarperir ar eich ystâd, gan roi mis o rybudd.
- Yn glanhau'n rheolaidd yr ardaloedd cyffredin sydd mewn blociau o fflatiau a chynlluniau tai gwarchod, y mae Contractau Glanhau yn berthnasol iddynt (Medra).
- Yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i chi bob blwyddyn am yr holl wasanaethau mewn ardaloedd cyffredin yr ydych yn cyfrannu atynt drwy daliadau gwasanaeth.
- Yn galluogi preswylwyr i ymfalchïo yn yr amgylchedd y maent yn byw ynddo.
- Yn sicrhau yr ymchwilir cyn pen 3 diwrnod gwaith i unrhyw eiddo a gaiff ei adael yn wag yn annisgwyl.

Caiff y Safonau hyn eu hadolygu'n rheolaidd, o leiaf bob tair blynedd

Cymeradwywyd gan y Tenantiaid